Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint

Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Opsiynau ar gyfer datblygu yn Sir y Fflint yn y dyfodol

Taflen gryno

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 9 Rhagfyr 2016

Hydref 2016

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Pwrpas y daflen hon

Mae'r daflen hon yn rhoi crynodeb hawdd ei ddarllen o'n dogfen 'opsiynau ar gyfer datblygu yn Sir y Fflint yn y dyfodol' (http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Planning/Flintshire-Local-Development-Plan.aspx).

Mae'r daflen hon yn esbonio beth yw'r gwahanol 'opsiynau strategol' (neu ddewisiadau) ar gyfer datblygu Sir y Fflint hyd at 2030 a fydd yn sail i lunio Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint.

Bydd Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn nodi ble y bydd y datblygiadau newydd yn y dyfodol yn ogystal â pholisïau cynllunio ar nifer o faterion gwahanol.

Sut i ddweud eich dweud

Dyma eich cyfle i ddweud eich dweud ynglŷn â'r ffordd y bydd eich Sir yn datblygu yn y dyfodol. Gallwch gyflwyno eich sylwadau fel a ganlyn:

- llenwi ein ffurflen sylwadau http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Planning/Flintshire-Local-Development-Plan.aspx a'i hanfon atom.
- trwy e-bost at developmentplans@flintshire.gov.uk.
- trwy ysgrifennu atom yn uniongyrchol.

Y dyddiad cau ar gyfer anfon sylwadau atom yw 9 Rhagfyr 2016

Os gwelwch yn dda, anfonwch eich sylwadau at:

Andrew Farrow
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF

Mae mwy o wybodaeth a chyngor ar gael gan ein tîm polisi drwy anfon neges e-bost neu ffonio 01352 703213.

Nodi'r materion

Rydym yn dal i fod yn y camau cyntaf o lunio'r cynllun ond rydym eisoes wedi casglu ynghyd llawer iawn o wybodaeth am Sir y Fflint a fydd yn ein helpu i nodi'r prif faterion sy'n wynebu'r Sir.

Prif faterion

1. **Gwella bywyd cymunedol** – er enghraifft:
   - Darparu siopau a gwasanaethau.
   - Capasiti cyfleusterau addysg a mynediad atyn nhw.
   - Gofal iechyd, cyfraddau gweithgarwch corfforol a'r mannau agored sydd ar gael.
   - Tagfeydd traffig, gorboblogi ar drenau a mynediad i gefn gwlad.

2. **Sicrhau twf a ffyniant** – er enghraifft:
   - Cydnabod pwysigrwydd economi Sir y Fflint i'r rhanbarth ehangach a Chymru.
   - Math ac ansawdd tir cyflogaeth ac isadeiledd.
   - Fforddiadwyedd tai a thangyflenwad tai.

3. **Diogelu'r amgylchedd** – er enghraifft:
   - Nifer fawr o safleoedd sy'n bwysig i fywyd gwyllt y mae angen eu diogelu rhag niwed.
   - Materion newid yn yr hinsawdd fel llifogydd.

I gael llawer mwy o fanylion am y materion sy'n wynebu Sir y Fflint, edrychwch ar ein dogfen dechnegol Yr *Opsiynau ar gyfer Twf Strategol a Gofodol.*

Datblygu opsiynau ar gyfer datblygu Sir y Fflint

Fel man cychwyn ar gyfer ystyried faint o ddatblygu newydd ddylai ddigwydd yn y sir, mae'n rhaid i'r cynllun ystyried rhagolygon aelwydydd y Llywodraeth. Rydym hefyd wedi ystyried rhagolygon gwahanol yn ymwneud â mudo a chyflogaeth.

Rydym o'r farn bod y rhain yn dangos y bydd angen i Sir y Fflint gynllunio ar gyfer rhwng **3,750 a 10,350 o gartrefi newydd hyd at 2030.**

Hoffem gael eich barn chi am 6 opsiwn tai gwahanol ar gyfer Sir y Fflint hyd at 2030.

Ble ddylai'r cartrefi newydd gael eu hadeiladu?

Bydd y ffordd y caiff cartrefi newydd eu dosbarthu ar draws y sir yn bwysig.

Rydym wedi datblygu pum ffordd wahanol y gellid dosbarthu'r cartrefi newydd. Rydym yn galw'r rhain yn 'opsiynau gofodol'.

3,750 Cartrefi

Opsiwn 1: 3,750 o gartrefi newydd

Mae'n adlewyrchu amcanestyniadau o aelwydydd gan Lywodraeth Cymru ar sail gwybodaeth o Gyfrifiad 2011 a disgwyliadau o ran symudiad pobl dros 10 mlynedd. **Tua 250 o gartrefi newydd bob blwyddyn.**

4,800 Cartrefi

Opsiwn 2: 4,800 o gartrefi newydd

Mae'n adlewyrchu amcanestyniadau o aelwydydd gan Lywodraeth Cymru ar sail gwybodaeth o Gyfrifiad 2014 a disgwyliadau o ran symudiad pobl dros gyfnod hirach o 15 mlynedd. **Tua 320 o gartrefi newydd bob blwyddyn.**

8,250 Cartrefi

Opsiwn 3: 8,250 o gartrefi newydd

Mae'n adlewyrchu amcanestyniadau o aelwydydd gan Lywodraeth Cymru ar sail rhagolygon poblogaeth 2014 a disgwyliadau o ran symudiad pobl dros gyfnod o 15 mlynedd ond gan ddefnyddio cyfraddau ffurf aelwydydd blaenorol yn seiliedig ar 2008. **Tua 550 o gartrefi newydd bob blwyddyn.**

6,600 Cartrefi

Opsiwn 4: 6,600 o gartrefi newydd

Mae'n adlewyrchu amcanestyniadau o aelwydydd gan Lywodraeth Cymru ar sail rhagolygon poblogaeth 2014 a gan ddefnyddio cyfraddau ffurf aelwydydd 2011. Mae'n defnyddio'r disgwyliadau uchaf o ran symudiad pobl dros gyfnod o 10 mlynedd. **Tua 440 o gartrefi newydd bob blwyddyn.**

10,350 Cartrefi

Opsiwn 5: 10,350 o gartrefi newydd

Mae'n adlewyrchu amcanestyniadau o aelwydydd gan Lywodraeth Cymru ar sail rhagolygon poblogaeth 2014 a'r disgwyliadau uchaf o ran symudiad pobl dros gyfnod o 15 mlynedd a hefyd gan ddefnyddio cyfraddau ffurf aelwydydd yn seiliedig ar 2008. **Tua 690 o gartrefi newydd bob blwyddyn.**

6,350 -7,350 Cartrefi

Opsiwn 6: 6,350 i 7,350 o gartrefi newydd

Mae'n rhagweld faint o gartrefi newydd y byddai eu hangen pe bai Sir y Fflint yn cynllunio ar gyfer 8,000 i 10,000 o swyddi hyd at 2030. Byddai hyn yn golygu **rhwng 440 i 490 o gartrefi newydd bob blwyddyn.**

OPSIWN 1 GOFODOL

Dosbarthiad cyfrannol ar gyfer trefi a phentrefi

Cartrefi newydd ar draws pob tref a phentref yn yr hierarchaeth anheddiad. Bydd cyfanswm y cartrefi newydd mewn anheddiad yn dibynnu ar safle'r anheddiad yn yr hierarchaeth.



OPSIWN 2 GOFODOL

Trefi a phentrefi mwy yn unig

Yn cyfeirio cartrefi newydd at drefi a phentrefi penodol, sef Prif Ganolfannau Gwasanaeth a Chanolfannau Gwasanaeth Lleol y Sir.



OPSIWN 3 GOFODOL

Trefi a phentrefi yn yr ardal dwf

Yn cyfeirio cartrefi newydd at bob anheddiad yn yr ardal dwf yng Ngogledd-ddwyrain Sir y Fflint. Nodwyd yr ardal dwf hon eisoes gan Lywodraeth Cymru.



OPSIWN 4 GOFODOL

Anheddiadau ar hyd llwybrau trafnidiaeth

Yn cyfeirio cartrefi newydd at aneddiadau ar y prif goridorau trafnidiaeth.



OPSIWN 5 GOFODOL

Dosbarthiad cynaliadwy a hyblyg

Yn cyfeirio cartrefi newydd at drefi a phentrefi o fewn yr hierarchaeth anheddiad ar sail ystyriaethau cynaliadwy, cyn rhoi ystyriaeth ofalus i bentrefi gwledig llai.



Camau nesaf

Rydym eisiau paratoi'r cynllun gam-wrth-gam gyda chyfraniad pobl leol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn dechrau gweithio ar y Strategaeth Ffafriedig sef y cam nesaf o baratoi'r cynllun, a elwir yn gam 'Cyn-Adneuo'. Byddwn yn gwneud mwy o waith technegol, a byddwn yn ystyried eich holl sylwadau yn ofalus er mwyn ein helpu i ddewis yr opsiwn gorau ar gyfer tyfu Sir y Fflint.

Ar ôl i ni wneud hyn, byddwn yn gofyn i chi roi eich barn unwaith eto ynglŷn â'r hyn rydym yn ei ystyried yw'r opsiwn gorau ar gyfer datblygu yn Sir y Fflint.

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL